Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

# Ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i: Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau Galwad am dystiolaeth: Trwyddedu gyrwyr ar gyfer pobl â chyflyrau meddygol

Wedi cau 22 Hydref 2023
Ymateb a gyflwynwyd drwy'r arolwg ar-lein.

## Cwestiynau:

Sylwer na wnaethom ymateb i adrannau 1-3 fel rhan o'n hymateb oherwydd bod y cwestiynau o natur iechyd neu feddygol yn hytrach na chysylltiadau posibl â diogelwch cymunedol.

### *Adran 4 – Cyflyrau meddygol lluosog a phoblogaeth sy'n heneiddio*

**4a) Oes angen unrhyw newidiadau i fynd i'r afael â'r mynychder cynyddol o yrwyr â chyflyrau meddygol lluosog?**

Ydym, rydym yn bryderus y gallai cymhlethdodau ychwanegol posibl sy'n cael eu hachosi gan gyflyrau meddygol cyfunol gael eu methu os bydd pob cyflwr yn cael eu trin ar wahân.  Efallai nad yw un diagnosis yn bosibl oherwydd y pwysau ar y gwasanaeth iechyd a bod pob cyflwr ac elfen yn cael eu trin yn gywir ond ar wahân - ond ar y cyd gallant ychwanegu at gymhlethdodau ar gyfer gyrru.

### *Adran 5 – Proses a chostau trwyddedu meddygol*

**5a) Ydych chi'n meddwl y dylai'r gost gysylltiedig ag ymchwiliadau meddygol gael ei thalu gan drethdalwyr a'r DVLA?**

Ydym, rydym yn credu y dylai costau'n gysylltiedig ag ymchwiliadau meddygol gael eu hariannu gan drethdalwyr a'r DVLA neu bod rhyw fath o brawf modd o leiaf. Ein rhesymeg am hyn yw, os bydd disgwyl i unigolion dalu amdano, gallai gael effaith negyddol annheg ar rai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn cynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig eraill (megis anabledd a hil). Oherwydd gallai hyn olygu eu bod un ai'n peidio â rhoi gwybod am gyflwr pan ddylent wneud hynny, neu eu bod yn rhoi gwybod amdano ond yn methu â fforddio'r ymchwiliadau meddygol ac felly'n colli eu trwydded yrru pan fyddai rhywun mwy cefnog yn yr un sefyllfa yn gallu cadw eu trwydded. Gallai hyn arwain at gam-fanteisio a mathau eraill o gamdriniaeth gan y gallant ddod yn fwy ynysig a chael llai o gyfleoedd oherwydd cyfyngiadau mewn cludiant cyhoeddus.

**5b) A fyddai'n briodol i'r cwsmer unigol dalu am ymchwiliadau meddygol mewn perthynas â'i ffitrwydd i yrru?**

Nid ydym yn credu bod hyn yn briodol a gallai arwain at system dwy haen i'r rhai sy'n gallu ei fforddio a'r rhai nad ydynt yn gallu ei fforddio. Mae hyn yn peri pryder arbennig ar hyn o bryd pan fo costau byw yn rhoi baich cynyddol ar gyllid unigolion a theuluoedd a phan fo mwy a mwy o bobl yn byw mewn rhyw fath o dlodi. Fel y soniwyd yng nghwestiwn 5a, os oes angen math arall o gyllido, dylai hwn fod yn berthnasol ddim ond i rai sy'n ennill dros ricyn penodol gan ei bod yn bwysig o ran diogelwch y ffordd bod pobl yn rhoi gwybod am gyflyrau meddygol fel y gellir eu hystyried yn briodol, ac os oes angen cymryd camau gweithredu.

**5c) Oes gennych chi unrhyw wybodaeth am drefniadau amgen ar gyfer cyllido gofynion trwyddedu meddygol i yrwyr? Os felly, disgrifiwch.**

Nid oes gennym unrhyw awgrymiadau eraill na soniwyd amdanynt yn ein hatebion i gwestiynau 5a a 5b.

**5d) Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â llwyddiant neu â phroblemau'r trefniadau hyn?**

Amherthnasol

***Adran 6 – Meddwl i'r dyfodol***

**6a) Ydych chi'n credu y bydd angen i'r safonau meddygol presennol newid i gymryd gwelliannau mewn technolegau yn y cerbyd i ystyriaeth? Rhowch y rheswm am eich ateb.**

Mae'n bosibl, wrth i dechnoleg wella, y gall mwy o gerbydau sy'n gyrru eu hunain alluogi rhyw fath o newid, fodd bynnag, nid yw technoleg wedi cyrraedd y cam ble nad oes angen unrhyw fewnbwn na chyfranogiad gan yrwyr. Oherwydd hynny, nid ydym yn credu ei bod yn briodol ar hyn o bryd i wneud newidiadau nes byddwn yn gwybod ei bod yn ddiogel.

**6b) Oes unrhyw dystiolaeth yr hoffech ei darparu ar sut y gallai trwyddedu gyrwyr gael ei ddiogelu at y dyfodol i ddarparu ar gyfer technolegau datblygedig mewn cerbydau?**

Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth na sylwadau ar hyn o bryd.

**6c) Ydych chi'n credu y byddai'r defnydd o wneud penderfyniadau awtomataidd yn fuddiol i waith achosion meddygol gyrwyr? Esboniwch eich rhesymeg.**

Rydym yn credu bod lle i wneud penderfyniadau awtomatig pan fo diagnosis neu gyflyrau symlach, ac er mwyn casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen at ei gilydd er mwyn gwneud penderfyniad. Gall dysgu peirianyddol fod yn llawer cyflymach wrth ddynodi ymchwil a'i ddarparu ond ni ddylid dibynnu arno fel yr unig ffynhonnell gan ei fod yn dal yn ei ddyddiau cynnar ac nid yw ond cystal â'r wybodaeth y gall gael gafael arni, a allai arwain at wybodaeth anghywir, gau neu ffug o'r herwydd.

**6d) Ydych chi'n meddwl y dylai unigolyn barhau i wneud y penderfyniad ar roi neu ddirymu trwydded yrru? Esboniwch eich rhesymeg.**

Dylai rhywun adolygu'r wybodaeth a'r penderfyniad neu argymhelliad bob amser. Os byddant yn gweld bod gwybodaeth gau neu ffug yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth, bydd arnynt angen gallu ei fwydo'n ôl i'r system. Dylai hefyd alluogi i unrhyw batrymau sy'n dechrau digwydd gael eu nodi os bydd geiriad penodol, er nad yw cyflwr yn ddiogel, arwain at benderfyniad neu argymhelliad anniogel gan beiriant. Gallai camgymeriad gan fod dynol gael effaith ar un digwyddiad anghywir, gallai peiriant sy'n gwneud yr un peth arwain at sawl digwyddiad anghywir oherwydd y gwahaniaeth mewn cyflymder proses ac oherwydd y ffordd maent yn adeiladu eu cof eu hunain.